# Cyfraniadau Undeb

28 Mehefin 2018

**Cais am wybodaeth**

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 1 Mehefin, pan wnaethoch ofyn:

> *A fyddech cystal â darparu'r wybodaeth ganlynol:*
> *Manylion cyfraniadau'r Cynulliad Cenedlaethol/Comisiwn i'r Blaid Gydweithredol, Undeb Unite, Unsain, y GMB, UCATT, a'r TUC.*
> *Byddai hyn yn cwmpasu cyfraniadau ar lefel leol, Cymru neu'r DU.*

Gelwir corff corfforaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn Gomisiwn y Cynulliad ac mae ein hymateb yn ymwneud â gwybodaeth a gedwir gan Gomisiwn y Cynulliad ac nid Llywodraeth Cymru nac unrhyw sefydliad arall.

Nid yw Comisiwn y Cynulliad wedi darparu unrhyw gyfraniadau ariannol i'r Blaid Gydweithredol, Undeb Unite, Unsain, y GMB, UCATT, na'r TUC.

Ystyriwyd eich cais yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Mae'r cod wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan yn www.cynulliadcymru.org/cy/abthome/about_us-commission_assembly_administration/abt-foi/Pages/abt-foi-cop-pub.aspx
Rhowch wybod imi os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch yr ymateb hwn. Os credwch fod gennych achos dros gwyno, dilynwch y canllawiau ar ddiwedd y llythyr hwn.

Yn gywir

**Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Bae Caerdydd
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 0300 200 6544
E-bost/Email: Ceisiadau-gwybodaeth@ynulliad.cymru
Gwybodaeth-request@cynulliad.cymru

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh

A oes gennych achos dros bryderu neu gwyno am yr ymateb i'ch cais am wybodaeth?

Os nad wyf wedi dilyn y Cod yn briodol yn eich barn chi neu os nad ydych yn credu fy mod wedi cadw at y gyfraith berthnasol, gallwch gwyno'n ffurfiol i Brif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd. Mae egwyddorion trefn gwyno'r Cynulliad yn y Cod Ymarfer ar Gwynion ar gael ar ein gwefan yn http://www.assembly.wales/cy/help/contact-the-assembly/con-complaint/Pages/con-complaint-procedure.aspx. Rhowch wybod imi os hoffech gael copi caled.

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad a ganlyn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF